



Darganfod bwyd lleol

Adnodd daearyddiaeth i Gyfnod Allweddol 2



Mae'r llyfryn hwn yn disgrifio gweithgaredd rhagarweiniol ar gyfer mapio bwyd y gellir ei ddatblygu i dymor cyfan o waith. Bydd yn caniatáu astudio llawer o feysydd o'r cwricwlwm Daearyddiaeth, fel y ganlyn.

Mae **teip trwm** yn dangos gofynion penodol y cwricwlwm Cymreig y mae'r adnodd hwn yn cwrdd â nhw. Mae [cromfachau sgwâr] yn dangos sut y mae'r adnodd yn darparu enghreifftiau defnyddiol.

Sgiliau

1. **Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau.** Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- ganfod a lleoli lleoedd ac amgylcheddau trwy ddefnyddio globau, atlasau a mapiau
- defnyddio mapiau, delweddau a TGCh i ganfod a chyflwyno gwybodaeth leoliadol, e.e. **llunio llinfapiau gan ddefnyddio symbolau ac allweddau.**

2. **Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau.** Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- **adnabod a disgrifio nodweddion naturiol a dynol**, e.e. y tywydd, mathau o adeiladau [mathau o dir fferm, dosbarthiad siopau bwyd]
- disgrifio achosion a chanlyniadau newid mewn lleoedd ac yn yr amgylchedd, e.e. fesul tymor; **o ddod i heddiw; angen cael cynaliadwyedd.**

3. **Ymchwilio.** Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- **arsylwi a gofyn cwestiynau am le**, amgylchedd neu fater daearyddol, e.e. Beth sy'n achosi llifogydd? Sut a pham mae ein pentref yn newid? [pa fwyd sy'n cael ei gynhyrchu yn lleol?]
- mesur, casglu a chofnodi data trwy **waith ymchwil ymarferol a gwaith maes** a defnyddio ffynonellau eilaidd, e.e. ... **cynllunio holiaduron**
- **trefnu a dadansoddi tystiolaeth**, datblygu syniadau i gael hyd i atebion a thynnu casgliadau, e.e. defnyddio taenlen data, cymharu data tywydd, [cynhyrchu siart gylch o'r hyn sy'n well gan gwsmeriaid].

4. **Cyfathrebu.** Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- **fynegi eu barn eu hunain** a sylweddoli bod gwahanol safbwyntiau gan bobl am leoedd, amgylcheddau a materion daearyddol, e.e. am [ddefnyddio siopau bach neu archfarchnadoedd]
- **gwneud penderfyniadau am faterion daearyddol trwy wahaniaethu rhwng ffaith a barn** ac ystyried gwahanol ddadleuon, e.e. [local or global food]
- cyfleu'r casgliadau mewn ffyrdd amrywiol, e.e. defnyddio termau daearyddol, ffotograffau anodedig, mapiau, diagramau neu TGCh.

Ystod


Dylai'r disgyblion gael cyfleoedd i astudio

- byw yng Nghymru: **eu hardal leol***
- byw yn fy myd fy hun: gofalu am leoedd ac amgylcheddau a phwysigrwydd bod yn ddinesydd byd-eang [drwy'r dewisiadau bwyd y maen nhw'n eu gwneud]
- **gwaith ymchwil ar 'daearyddiaeth yn y newyddion', digwyddiadau a materion cyfoes yn yr ardal leol** a'r byd ehangach
- **gwaith maes i arsylwi ac ymchwilio i leoedd a phrosesau go iawn**

Cwricwlwm Cymreig

Dylai dysgwyr 7–14 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

Mewn daearyddiaeth, bydd y dysgwyr yn cael cyfleoedd i astudio eu rôl fel **dinasyddion lleol a byd-eang** a gwerthfawrogi amrywiaeth cymunedau yng Nghymru a gwledydd eraill. Byddant yn ymchwilio sut a pham y bydd amgylcheddau'n newid a **phwysigrwydd cynaliadwyedd**. Byddant yn dysgu am y **cysylltiadau rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr** a sut y gall gweithredoedd economaidd ac amgylcheddol pobl mewn un rhan o'r byd effeithio ar fywydau pobl eraill [er enghraifft trwy fasnachu bwyd].



Map bwyd Blwyddyn 3

Adnoddau

www.countrysideclassroom.org.uk

www.face-online.org.uk


www.face-cymru.org.uk

Gyda diolch i athrawon a disgyblion: Ysgol Arberth, Tenby Church in Wales VC School, Ysgol Llanbryn-mair, Ysgol y Dderi (Y Fenni), Ysgol Penrhyn-coch.

Gweithdy Cyflwyniadol – oddeutu dwy awr yn cynnwys egwyl

Mae hyn yn gweithio yn dda i gyflwyno'r pwnc, a bydd yn cynhyrchu llawer o waith dilynol.


Amser	Gweithgaredd	Beth yr ydych ei angen a nodiadau
15 munud	Mae pob plentyn yn blasu dwy eitem o fwyd sy'n wahanol ac yn dod o hyd i gymaint o wahaniaethau ag sy'n bosibl – gwead, blas, arogl. Trafodwch beth sy'n eu gwneud nhw yn wahanol, a phleidleisiwch dros yr hyn sydd orau ganddyn nhw.	Samplau bwyd, e.e. bara gwyn neu bara gwenith cyflawn; afalau wedi'u mewnfario neu afalau lleol; gwahanol fathau o domato. Yn ddelfrydol, dylai un fod yn lleol â stori iddo. N.G. Nid oes un ateb cywir: y nod yw cyflwyno'r pwnc o brofiad.
20 munud	Mae pob plentyn yn creu map bwyd personol. Rhwng help iddyn nhw ddewis symbolau addas ar gyfer y lleoedd y maen nhw'n eu cysylltu â'r bwyd: cartref, ysgol, siopau cornel, archfarchnadoedd, caffis, gerddi ac yn y blaen.	Templedi mapiau bwyd A4 yn dangos digon o'r ardal leol i gynnwys cartrefi'r disgyblion a'r trefi lle mae eu rheini yn siopa. Ar gyfer ardaloedd gwledig, gallai hyn fod mor fawr â sir gyfan. Gweler yr enghraifft.
20 munud	Trafod y canlyniadau fel dosbarth – mae'n debygol y bydd llawer o siopau ar eu mapiau. Cymharwch archfarchnadoedd mawr gyda siopau bychain: beth yw'r manteision a'r anfanteision?	Er enghraifft: pa mor hawdd yw parcio, y dewis, y pris, y profiad (ydi archfarchnadoedd mawr yn ddryslyd neu'n gyffrous?)
	Egwyl	
15 munud	Trafodaeth: Beth sy'n tyfu yn lleol? Beth sydd ddim? Gallwch chi ddechrau gyda phryd o fwyd, e.e. <i>pizza</i> , a mynd trwy'r cynhwysion fesul un a'u holrhain nhw yn ôl i'r lle y daethon nhw.	Efallai y gall eu gwybodaeth fod yn eithaf cyfyngedig, ond anogwch nhw i feddwl beth y maen nhw wedi'i weld yn tyfu mewn caeau neu mewn gerddi.
15 munud	Sut gallwn ni gael mwy o wybodaeth ynglŷn â'r system fwyd leol? Ar wahân i ymchwilio drwy'r rhyngwrdd, gallwch chi gyflwyno'r syniad o gyfnewid pobl leol, a gwahodd awgrymiadau.	Syniadau da ar gyfer cyfweledigion: cogydd yr ysgol, ffermwr, siopwr, perchennog bwyty, rhywun sy'n gweithio mewn ffatri fwyd leol, cwsmer (er enghraifft rhiant neu athro). Gwnewch iddyn nhw nodi pobl go iawn y maen nhw'n eu hadnabod os yw'n bosibl.



Ei symud ymlaen ymhellach


Cynhaliwch arolwg o'r siopau yn yr ardal leol: pa siopau sydd yna? Pa fwydydd lleol maen nhw yn eu gwerthu? Holwch perchennog siop gan ddefnyddio'ch holiadur.

Gwnewch fap siopau lleol.



Gwahoddwch **ffermwyr a busnesau bwyd** i'r dosbarth a'u holi am eu Gwaith. Gall FACE eich helpu chi gyda hyn Ar gyfer gweithgareddau ynglŷn â ffermio, gweler www.whyfarmingmatters.co.uk a www.countrysideclassroom.org.uk.

Yna, **ymwelwch â fferm** – yma cewch chi weld bwyd yn cael ei gynhyrchu yn uniongyrchol, a dysgu am fywyd y ffermwr. Ewch i www.visitmyfarm.org er mwyn darllen mwy.



Lluniwch **holiadur** er mwyn darganfod lle mae'n well gan rieni brynu eu bwyd, yna defnyddiwch TG i gyflwyno'r canlyniadau mewn ffordd greadigol.

Bwyd lleol neu fwyd byd-eang?

Gwnewch fap o'r byd sy'n dangos lle mae bwyd yn tarddu. Ceisiwch gael y disgyblion i drafod y manteision a'r anfantaision o geisio prynu bwyd yn lleol yn hytrach na bwyta bwyd sydd wedi cael ei fewnforio. Dechreuwch ddadl, neu gwnewch iddyn nhw ysgrifennu eu hymatebion personol eu hunain.



"Credaf fod prynu byd-eang yn well na phrynu bwyd lleol oherwydd eich bod yn cael llawer mwy o ddewisiadau ac mae'r rhan fwyaf o'm hoff ffrwythau yn dod o wledydd gwahanol."

"Os ydych chi'n prynu yn fyd-eang, mae'n llawer haws oherwydd eich bod yn cael mwy o ddewis, ond ar y llaw arall, mae prynu yn lleol yn fwy ffres ac yn iachach ac mae'r gymuned yn cael ei chefnogi."

"Os ydych chi'n prynu o leoedd tlawd, mae siawns y bydd y tlodion yn cael rhywfaint o arian, ond sicrhewch ei fod yn fwyd Masnach Deg." (Blwyddyn 5/6)



Sut mae'r system fwyd wedi newid dros amser?

Ymchwiliwch sut oedd y system fwyd leol yn gweithio dyweder 30-50 mlynedd yn ôl, neu hyd yn oed ymhellach yn ôl na hynny. Gallwch chi wneud hynny drwy ymweld ag amgueddfa, ymchwilio ar y rhyngwrwyd neu gyfweld pobl hŷn fel neiniau a theidiau.

- Sut mae deiet wedi newid?
- Sut mae siopau wedi newid?
- Sut mae ffermio wedi newid
- Beth oedd yn dda ynglŷn â'r gorffennol neu beth oedd yn ddrwg?



gh Street. Royce Lewis, seen standing by the telegraph pole, remembers the sheep making their way to the Mart ground or to the station, belonged

I'r dyfodol

Edrychwch beth y gallwch chi ddarganfod ynglŷn â dyfodol gwahanol ar gyfer bwyd a ffermio. Gallech edrych ar:

- Llaethdai enfawr
- Marchnadoedd ffermwyr
- Effeithiau newid yn yr hinsawdd
- Ffermio ar gyfer bywyd gwyllt
- Gwastraff bwyd
- Ffermio manwl



Pa rym sydd gennym ni i lunio dyfodol bwyd? Beth sy'n bwysig inni? Meddyliwch ynglŷn â phleidleisio, dewisiadau bwyd yn y siopau, ysgrifennu llythyrau at y papurau newydd ac yn y blaen.

Cynnal digwyddiad bwyd

Mae dathlu bwyd lleol yn rhoi'r gwaith yn ei gyd-destun ac mae'n ffordd dda i gwblhau'r uned.

Mae rhai ysgolion wedi:

- Gwneud bara a chawl yn y dosbarth
- Trefnu pryd bwyd cymunedol gyda'r nos, gan ddefnyddio cynnyrch gardd, bwyd lleol a bwyd dros ben o archfarchnadoedd
- Cynnal pryd arbennig amser cinio, gyda chynhwysion lleol a gwahodd ffermwyr a rhieni.



Rhowch wybod inni beth ddigwyddodd! Trydarwch ar @FACECymru